Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Clwb Carco Melin Gruffydd**

**Ysgol Melin Gruffydd**
**Glan Y Nant Road**
**Whitchurch**
**Cardiff**
**CF14 1AP**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

30/09/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âClwb Carco Melin Gruffydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y tu allan i Oriau Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Carco Limited |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Good** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Good** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Cânt gyfleoedd i ddatblygu ystod dda o sgiliau annibyniaeth drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau chwarae diddorol ac ysgogol. Mae'r plant yn ffurfio perthynas agos â'i gilydd ag â'r staff, sy'n arwain at ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn cydweithio'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth o sut i gadw'r plant yn iach. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n ymateb i ddiddordebau a syniadau'r plant. Mae'r staff yn dilyn ac yn deall polisïau a gweithdrefnau, sy'n sicrhau llesiant y plant yn effeithiol.

Lleolir y clwb gofal o fewn ysgol gynradd. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn groesawgar ac mae wedi'i drefnu'n dda ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a diddordebau'r plant. Mae'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn addas i’r plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol gan y lleoliad. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cefnogi’r staff yn eu rolau ac yn buddsoddi yn natblygiad y staff, gan sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnânt welliannau lle bo angen er lles y plant yn eu gofal. Mae partneriaethau gyda rhieni a gwarchodwyr yn dda.

| **Llesiant** | **Good** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y clwb. Er enghraifft, maent yn cyrraedd yn hapus, yn gwenu, yn dilyn trefn wrth ddod i eistedd wrth y bwrdd ar gyfer byrbryd cyn dechrau eu gweithgareddau. Mae ganddynt berthynas agos â'i gilydd a gyda'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a'u gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn cael peth cyfleoedd i wneud dewisiadau. Er enghraifft, tu allan, maent yn dewis eu gweithgareddau eu hunain. Maent yn symud yn rhwydd rhwng y gweithgareddau yma ac yn penderfynu ar yr amser maent yn treulio ar y gweithgareddau unigol. Mae'r plant yn mwynhau nifer o gyfleoedd o dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael adegau distaw gyda'u ffrindiau neu ar ben eu hunain. Mae'r iaith Gymraeg yn gryf yn y gwasanaeth ac mae'r plant i gyd yn cymdeithasu, mynegi barn a chwarae yn y Gymraeg.

Mae'r plant yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn cydweithio'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn cydweithio i adeiladu lloches, gan ddangos diddordeb a dyfalbarhad. Maent yn mynegi empathi clir ac maent yn sensitif iawn i anghenion eraill, wrth i'r plant hŷn fod yn ofalgar iawn o'r plant iau. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd gan drefnu gêm bêl droed. Maent yn gyfarwydd â rheolau'r gwasanaeth ac yn eu dilyn. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd tro i ddefnyddio'r sgwter ac yn gwisgo helmed cyn ei ddefnyddio. O ganlyniad, maent yn ymgysylltu ac yn dangos parch tuag at eiddo ac at ei gilydd yn gyson.

Mae'r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad am y lleoliad. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn datblygu eu sgiliau corfforol. Er enghraifft, gwelir dau blentyn yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i gyrraedd y brig ar y wal ddringo. Mae'r un plentyn yn ennill a'r llall yn ei longyfarch yn frwdfrydig. O ganlyniad, mae'n arwain at deimlad da o gyflawni a hunan-barch uchel. Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn awyddus i siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Maent yn dweud wrthym mae chwarae gyda'u ffrindiau tu allan yw'r peth gorau i'w wneud yn y clwb.

## Gofal a Datblygiad **Good**

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel, ar y cyfan, trwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhestrau gwirio dyddiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn dilyn polisïau'r gwasanaeth ar gyfer damweiniau a digwyddiadau ac yn cynnal driliau tân cyson.  Fodd bynnag, nid ydynt yn dilyn eu polisi meddyginiaethau ac nid yw'r dogfennau gweinyddu meddyginiaethau yn ddigon cynhwysfawr. Mae pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac mae eu cynnwys yn cael ei gwirio yn rheolaidd. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r polisi yn gynhwysfawr ac mae'r staff yn cael hyfforddiant cyson mewn diogelu plant. Roedd yr holl staff present yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau diogelu i'w dilyn yn y rhan fwyaf o senarios diogelu drafodwyd. Fodd bynnag, nid oedd rhai staff yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai honiad yn erbyn yr unigolyn cyfrifol a'u dyletswyddau unigol i adrodd hyn. Mae'r lleoliad yn bwriadu ymateb i hyn yn syth drwy greu poster gwybodaeth fydd wrth law i staff pan fod angen. Nid oedd y lleoliad wedi ei gofrestri gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ond cafodd hyn ei gyflawni yn ystod yr arolwg. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o gyfleodd tu fewn ac yn yr awyr agored sydd yn cynnig mynediad i gyfleoedd corfforol i blant. Er enghraifft, tu fewn mae'r plant yn mwynhau gêm ddawnsio 'Cerfluniau Cerddorol'.

Mae'r staff yn creu awyrgylch croesawgar a chadarnhaol yn y gwasanaeth. Maent yn cydweithio'n yn arbennig o dda i ddiwallu anghenion y plant a chaiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae Staff yn cefnogi'r plant yn dda i ryngweithio'n gadarnhaol ac yn feddylgar ag eraill. Maent yn siarad â phlant ar eu lefel hwy, gan roi eu sylw llawn iddynt ac ymateb yn gadarnhaol. Mae staff yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth reoli risgiau. Er enghraifft, roedd un aelod o staff yn cefnogi plentyn i ddringo'r wal ddringo gan roi anogaeth briodol. Mae staff yn defnyddio strategaethau cyfarwydd gyda'r plant er mwyn rheoli ymddygiad. Er enghraifft, er mwyn taweli'r plant maent yn defnyddio 'llaw dawel' sydd yn unol â threfniadau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r plant yn ymateb yn syth ac mae ymddygiad y plant yn dda iawn.

Mae gan y staff wybodaeth dda am ddysgu yn seiliedig ar chwarae ac mae ganddynt y cymwysterau gofal plant perthnasol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas ac yn cefnogi'r plant yn dda yn eu chwarae. Mae staff yn rhannu profiadau arferion da gyda chydweithwyr y cwmni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu rôl. Mae'r plant yn mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac mae'r staff yn sicrhau ei bod yn hyrwyddo'r Gymraeg ar bob achlysur. Mae'r staff yn trefnu gweithdai amrywiol a diddorol i'r plant. Er enghraifft, maent yn cynnal noson coginio pitsa ac yn mynd i'r coed i gynnal gweithgareddau awyr agored. Yn achlysurol maent yn gofyn am syniadau'r plant a'u cofnodi ar fap meddwl. O ganlyniad, mae'r plant yn elwa yn fawr o'r gweithgareddau sydd yn ymateb i'w diddordebau. Mae'r staff yn nabod y plant yn dda iawn ac yn

ymwybodol iawn o’u hanghenion unigol. Maent yn cynllunio'n hollgynhwysol ar gyfer y plant sydd ag anghenion unigol ac yn cyd-weithio’n agos gyda rhieni i sicrhau eu lles. Mae’r rhieni yn siarad yn uchel iawn o’r gefnogaeth mae’r clwb yn cynnig a’u rôl yn cefnogi datblygiad cymdeithasol eu plant.

## Yr Amgylchedd **Good**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Cynhelir gwiriadau a risgiau diogelwch dyddiol gan y staff. Cyflawnwyd archwiliad rholi heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr arolwg ac mae arweinwyr yn bwriadu gweithredu ar hyn drwy roi rhai gwelliannau ar waith yn dilyn yr archwiliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofrestr o'r plant sy'n mynychu ac yn nodi pan fod plant yn gadael. Maent yn cadw cofnod o ymwelwyr i’r lleoliad a gofyn iddynt lofnodi wrth fynd i mewn ac allan. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg manwl ac yn cyd-weithio’n agos gyda’r ysgol er mwyn sicrhau fod y gwiriadau diogelwch angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Lleolir y lleoliad yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Mae gan y lleoliad fynediad i ardal awyr agored eang sydd ag ardaloedd bach wedi’i gorchuddio'n rhannol. Tu fewn, mae ganddynt fynediad i ddwy neuadd, stafell gerdd, llyfrgell ac ystafell ddosbarth. Mae'r lleoliad yn groesawgar, a’r cyfleusterau yn hygyrch ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae hysbysfwrdd yn arddangos gwybodaeth bwrpasol sydd yn cynnwys hawliau’r plant a gwybodaeth am yr hyn y mae’r lleoliad yn ei gynnig.

Ceir cyflenwad cyfoethog o adnoddau o ansawdd da, sy’n briodol i ddatblygiad a diddordebau'r plant. Mae amrywiaeth o adnoddau adeiladu a gemau bwrdd ar gael ac mae'r rhain yn addas i wahanol oedrannau. Ceir dewis da hefyd o adnoddau i blant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ailgylchu a chynaliadwyedd. Er enghraifft, maent yn defnyddio deunyddiau amrywiol i adeiladu lloches. Mae’r arweinwyr yn trefnu amser y plant yn amgylchedd yn briodol ac yn sicrhau fod y plant yn defnyddio'r amrywiol ardaloedd yn gyson. Mae byrddau a dodrefn addas a phriodol ar gael i’r plant tu fewn a thu allan a llefydd i ymlacio ar ddiwedd y dydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Good

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn y lleoliad. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod yr arolwg er mwyn adlewyrchu'r newidiadau staffio a danfonwyd copi at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae’r datganiad yn glir ac yn cydymffurfio â’r rheoliadau perthnasol. Mae'r person â gofal yn elwa o rwydwaith, cymorth a phrosesau cryf y cwmni. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chedwir cofnodion priodol. Fodd bynnag, mae angen diweddaru rhai polisïau, megis y polisi disgyblu staff a’r polisi meddyginiaeth. Mae rheolwyr yn cyfarfod yn aml er mwyn adolygu gweithdrefnau a gwneud gwelliannau. O ganlyniad, maent yn ymateb i flaenoriaeth drwy roi gwelliannau ar waith mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn effeithiol ac yn gweithio'n galed i adeiladu tîm cryf a phartneriaethau da. Maent yn sicrhau fod cymarebau staff i blant yn cael eu cynnal drwy gadw cofrestr ganolig o staff. Fodd bynnag, nid yw’r staff yn arwyddo i mewn ag allan ar y safle. Maent yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli o fewn y lleoliad. Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu a theimla’r staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedant fod y tîm rheoli yn gwrando ar eu barn a bod yr arweinwyr tîm yn rhoi cymorth da iddynt. Maent yn rhannu profiadau arferion da gyda chydweithwyr o leoliadau eraill y cwmni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu rôl. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar brofiadau'r plant sy’n mynychu’r lleoliad.

Mae’r hunanwerthuso yn fyfyriol ac yn nodi meysydd o gryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella trwy ystyried barn eraill. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo’n llwyr i welliannau ac maent wedi croesawu eu harolygiad fel rhan annatod o’u hunanwerthuso a’u cynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw. Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf iawn gyda’r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon am blant, fod gweithdrefnau a phrotocolau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae partneriaethau gyda’r rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill yn dda iawn. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda’r lleoliad a bod eu plant wrth eu bodd yn mynychu. Maent yn hapus iawn i argymell y lleoliad i eraill.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

A1. Adolygu’r polisi meddyginiaeth, y broses sydd yn dilyn, a sicrhau fod y dogfennau cofnodi yn addas at y diben.

A2. Sicrhau fod staff yn arwyddo mewn ac allan yn y lleoliad.

A3. Adolygu’r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl glir ac yn adlewyrchiad cyfredol o’r lleoliad.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/11/2022